



Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf

Adroddiadau Cylch Gorchwyl Estyn

Ymateb Llywodraeth Cymru

Enw'r adroddiad:

Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf

Manylion yr adroddiad

Comisiynwyd Estyn i ddarparu trosolwg o safonau, agweddau dysgwyr, darpariaeth ac arweinyddiaeth o ran y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch Iaith Gyntaf.

Mae'r adroddiad yn gwerthuso pa mor dda yw ansawdd addysgu ac asesu, cynllunio cwricwlaid, ynghyd â'r profiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sydd yn cyfrannu at godi safonau a gwella profiadau dysgwyr yng nghyfnod allweddol 5.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Safonau

- Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch Cymraeg yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn y pwnc ar sail diffyg meistrolaeth ar gynnwys ac arddull y testunau gosod yn ogystal â diffygion mynegiant ysgrifenedig.
- Mae gan lawer o ddysgwyr yr hyder angenrheidiol, ynghyd â gafael gadarn ar y Gymraeg. Serch hynny, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau llafar mewn cyd-destunau anffurfiol y tu allan i'r ysgol.
- Dros y ddeng mlynedd diwethaf, mae'r ganran o ymgeiswyr sy'n ennill graddau A*/A ac A*- C yn y pwnc wedi aros yn lled gyson.

Niferoedd

- Er bod nifer y disgyblion Blwyddyn 13 sydd yn astudio Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf wedi disgyn dros y ddeng mlynedd diwethaf, yn 2018/2019, mae canran y disgyblion gwneud hynny yn debyg i'r ganran yn 2008/2009.

Agweddau

- Mae'r dysgwyr yn dewis parhau i astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch oherwydd eu bod wedi mwynhau'r cwrs TGAU, dylanwad athrawon, eu hyder yn y pwnc oherwydd cefndir y cartref, a dylanwad aelodau o'r teulu sydd wedi astudio'r pwnc.
- Prif resymau dysgwyr cyfnod allweddol 4 dros beidio ag astudio'r cwrs

Safon Uwch yw dyheadau gyrfaol a diffyg mwynhad o'r cwrs TGAU Llenyddiaeth.

- Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddysgwyr tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol. Mae awydd a hyder lleiafrif o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn tueddu i bylu yn ystod eu haddysg uwchradd.
- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o werth sgiliau dwyieithrwydd o ran cyflogadwyedd. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn dewis astudio eu cyrsiau trwy Saesneg yng nghyfnod allweddol 5.

Profiadau addysgu a dysgu

- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ansawdd y ddarpariaeth addysgu o leiaf yn dda ac yn rhagorol mewn lleiafrif ohonynt, gydag athrawon yn llwyddo i gyflwyno'r cwrs mewn dull creadigol ac yn cynllunio gwersi yn gelfydd
- Mewn ychydig o ysgolion, nid oes digon o ffocws ar herio dysgwyr i gyrraedd y graddau uchaf, na'r addysgeg angenrheidiol i addysgu testunau safon uwch a chodi safonau yn effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig profiadau cyfoethog er mwyn meithrin balchder eu dysgwyr yn y Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Arweinyddiaeth, marchnata a chynllunio

- Mae gan y rhan fwyaf o benaethiaid ac arweinwyr adrannau Cymraeg weledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg, ac mae gan yr arweinwyr gorau gynlluniau strategol clir.
- Mae llawer o arweinwyr pwnc yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i fyfyrwyr ddysgu mewn dulliau anffurfiol a ffurfiol am y cwrs Safon Uwch. Er hyn, maent yn wynebu heriau o ran hyrwyddo'r pwnc fel opsiwn Safon Uwch a'r hyn y gall gynnig i wella cyflogadwyedd.
- Mae dulliau monitro'r targedau a bennir yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu) i wella addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal yn amrywio'n fawr ar draws yr awdurdodau lleol.
- Mae arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn wynebu heriau cynyddol i gryfhau'r cyfrwng addysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 a 5, er bod nifer o enghreifftiau llwyddiannus.

Argymhellion ar gyfer ysgolion a cholegau addysg bellach:

Argymhelliad 1

Dylai ysgolion a cholegau addysg bellach:

Farchnata Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn cynyddu niferoedd y dysgwyr sy'n dewis y pwnc

Argymhelliad 2

Dylai ysgolion a cholegau addysg bellach:

Ddatblygu dulliau effeithiol o gyflwyno'r testunau gosod a synoptig i ddysgwyr mewn dulliau cyfoes a gwreiddiol

Argymhelliad 3

Dylai ysgolion a cholegau addysg bellach:

Gynllunio'n fwriadus i gynyddu awydd, dygnwch a hyder dysgwyr ysgolion uwchradd i ddefnyddio'r Gymraeg a chydweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo hyn

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1-3:

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argymhellion, ac fe fydd yn eu codi wrth drafod gydag ysgolion a cholegau addysg bellach, ynghyd ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill.

Gweler yr ymateb i Argymhelliad 6 isod o ran camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r consortia rhanbarthol i ddarparu dysgu proffesiynol a hwyluso rhwydweithiau pynciau i helpu i ddarparu Safon Uwch. Bydd Llywodraeth Cymru yn dwyn yr argymhelliad hwn at eu sylw er mwyn annog rhannu arferion.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gydag amrywiol bartneriaid allanol i sefydlu a chynnal arferion cadarnhaol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ynghyd â chyfluoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg i wella eu dyhead a'u hyder.

Mae'r fframwaith *Siarter Iaith* bresennol yn ymrwmo i:

- greu pecyn cymorth ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i'w ddefnyddio i ymgorffori arferion pobl ifanc o ran defnydd iaith a chefnogi datblygiad prosiectau lefel ysgol i annog defnydd iaith ymhlith dysgwyr
- cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol dysgwyr o'r Gymraeg.

Ar ben hynny, mae'r Mentrau Iaith a'r Urdd yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i godi ymwybyddiaeth disgyblion ôl-16 o bwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer cyflogadwyedd yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

Argymhelliad 4

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:
Gynnal rhwydweithiau er mwyn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a rhannu'r arferion gorau o ran addysgu Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf

Argymhelliad 5

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:
Olrhain y cyfrannau o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a 5 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 4-5:

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argymhellion ac fe fydd yn eu codi wrth drafod gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill.

Fel amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r consortia rhanbarthol i ddarparu dysgu proffesiynol a hwyluso rhwydweithiau pynciau i helpu i ddarparu Safon Uwch. Bydd Llywodraeth Cymru yn dwyn yr argymhelliad hwn at eu sylw er mwyn annog rhannu arferion.

Fel rhan o'r trefniadau Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg 10 mlynedd newydd, bydd Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn cynllunio yn fwy pendant a strategol er mwyn cyrraedd y targedau o fewn eu Cynlluniau Strategol a'r rhai sydd wedi'u nodi yn *Cymraeg 2050*. Bydd y canllawiau yn tynnu sylw at yr angen i Awdurdodau Lleol baratoi cynlluniau mewn partneriaeth â phartneriaid addysg allweddol, drwy Fforwm Addysg Gymraeg y sir a thu hwnt.

Bydd sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y broses gynllunio yn arwain at well cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid a gwell dealltwriaeth o'r cychwyn o'r targedau a gytunwyd a'r disgwyliadau ar rhanddeiliaid fel rhan o'r gwaith. Hefyd bydd pwyslais cynyddol ar gryfhau y broses fonitro fel rhan o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg, gyda disgwyliad y bydd awdurdodau lleol a'r fforymau Addysg Gymraeg lleol yn monitro a chraffu ar ddarpariaeth a chynnydd lleol yn gyson, gyda phroses adrodd flynyddol gliriach yn ei lle i fonitro cynnydd yn erbyn pob amcan. Bydd hyn yn ddatblygiad pwysig i helpu awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol mewn perthynas â'r olrhain a'r targedu sy'n cael eu hargymell gan Estyn.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru:

Ddarparu adnodd marchnata cenedlaethol i hyrwyddo Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf a medrau cyflogadwyedd y pwnc

Ymateb Llywodraeth Cymru: ***Derbyn***

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ymgyrch farchnata mewn partneriaeth ag amrywiol rhanddeiliaid i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch a'i werth

er mwyn gwella cyflogadwyedd. Mae'r ymgyrch wedi'i gohirio am y tro yn sgil y pandemig COVID-19, ac fe fydd yn ailgychwyn pan fydd hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi parhau ar ddatblygu adnoddau marchnata cenedlaethol i athrawon eu defnyddio, ac fe fyddant yn cael eu dosbarthu cyn hir. Mae'r ymgyrch yn rhan o weithgarwch marchnata a chyfathrebu ehangach i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg, gan roi negeseuon cyson am werth addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £290,000 yn 2019-20 a 2020-21 i gefnogi rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch a hyrwyddo llwybr i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Safon Uwch Cymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried sut i gryfhau Safon Uwch yn y Gymraeg fel cynnig cyfoes a deniadol.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru:

Gydweithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau TGAU Cymraeg newydd i gefnogi'r cwricwlwm arfaethedig yn cynnig testunau mwy cyfredol a pherthnasol i ddysgwyr

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ac ymarferwyr eraill i ddatblygu cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ar 4 Mehefin, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ganlyniadau ymgynghoriad cyntaf *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*. Mae'n datgan y byddai TGAU diwygiedig yn rhan ganolog o'r cynnig.

Disgwylir i gam nesaf yr ymgynghoriad ddigwydd fis Rhagfyr 2020. Bydd yn canolbwyntio'n fanylach ar y cymwysterau a ddylai ffurfio rhan o'r cynnig i'r rhai 16 oed. Bydd hyn yn cynnwys cymwysterau i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg. Mae'r ymgynghoriadau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gymwysterau hyd at 16 oed. Yn y man, bydd y goblygiadau ar gyfer Safon Uwch hefyd yn cael eu hystyried.

Manylion cyhoeddi

Dyddiad cyhoeddi 17/06/2020

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar neu ar ôl 17 Mehefin 2020 ac mae modd dod o hyd iddo ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru



ISBN digidol 978-1-80038-678-5

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2020
WG40813